**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 25 GORFFENNAF 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Miss Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes); a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwy-ydd Arolygon)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 11:50

Ymddiheuriadau: Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon)

**Cyfarfod ar y cyd â'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol 12.30 - 13.45.**

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

**2.1.** Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cyfeirio at y wybodaeth ddiweddaraf am faterion wrth iddynt godi mewn perthynas ag Adroddiadau ar yr agenda.

**3. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

3.2. **Cytunwyd** i ddileu gwybodaeth sensitif yn fasnachol o Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2017 cyn eu cyhoeddi.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Gorffennaf 2017 gan y Prif Weithredwr ar Materion yn Codi.

**4.2.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 2)** Staffio – Mae'r Swyddog Cymorth Busnes wedi dechrau yn ei swydd, ac roedd swydd wag y Swyddog Arolygon i'w hail-hysbysebu.
- **(Mater 3)** Porth Ymgynghori – Mae trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt gyda'r datblygwr.
- **(Mater 6)** Strategaeth TG – Mae'r Achos Busnes wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru. Ar waith ar hyn o bryd, a disgwyliwn eu hymateb.
- **(Mater 7)** Cyfarfod Rhwng-Comisiynau – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y trefniadau.
- **(Mater 8)** Adeilad – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar gynnydd a gwybodaeth am y cais a wnaed i'r landlordiaid am ganiatâd i roi'r brydles i'r Comisiwn. Cytunodd y Comisiwn y dylid gofyn am gadarnhad o'r graddfeydd amser. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

## 5. Yswiriant Moduron

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 22 Mehefin 2017 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** y dylai aelodau gael gwarchodaeth fusnes briodol yn eu hyswiriant cerbyd modur pe baent yn defnyddio'u cerbyd preifat i deithio ar fusnes y Comisiwn. **Cytunwyd** y dylid cadw copïau o bolisïau yswiriant yr aelodau er mwyn gallu cyfeirio atynt.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 6. Canllaw ar Arolygon Cymunedol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. **Cytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn mewn egwyddor yn amodol ar ddiwygiadau i'w gynnwys a'r gramadeg. Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn y rhagair, ac mae llythyr esboniadol i'w ddrafftio cyn cyhoeddi.

6.3. Bydd y Comisiwn yn ystyried y fersiwn derfynol drwy'r e-bost, ac yn dilyn ymgynghori â'n His-adran Noddi, bydd y Comisiwn yn cytuno'r fersiwn derfynol o'r adroddiad, ynghyd â'r diwygiadau a gytunwyd, mewn cyfarfod yn y dyfodol. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

**7. Penodiadau Cyhoeddus**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Gorffennaf 2017 gan y Prif Weithredwr.

7.2. **Cytunodd** y Comisiwn i hysbysu'r Uned Penodiadau Cyhoeddus y byddai'r Comisiwn yn barod i gynnig cyfleoedd mentora ac i ymgeiswyr gysgodi aelodau'r Bwrdd, fel y bo'n briodol.

8. **Rheoli Risg**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nododd** y Comisiwn y gofrestr risg wedi'i diweddaru a **Chytunodd** y newidiadau canlynol:

- CR6: ychwanegu'r camau lliniaru bod yr Adroddiad Cynigion Drafft wedi'i gyhoeddi ar 13 Mehefin 2017. Israddio'r risg weddilliol i 3 x 2 = 6 (ambr). Diweddaru'r perchennog i'r Dirprwy Brif Weithredwr.
- CR7: diweddaru'r camau lliniaru. Diweddaru'r perchennog i'r Prif Weithredwr. Diwygio'r radar risg i adlewyrchu'r risg gyfredol fel un coch ac nid ambr.

**9. Monitro'r Gyllideb**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2017 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod tanwariant y Comisiwn wedi cynyddu yn sgil y diffyg llwyddiant yn recriwtio Swyddog Arolygon ychwanegol. **Cytunwyd**, ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, y dylai'r Rheolwr Cyllid adrodd ffigur net ar gyfer tanwariant nad oedd yn cynnwys yr hen anfonebau heb eu talu ar gyfer costau staff secondeion adrannau eraill y llywodraeth.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

10. **Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Gorffennaf 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**10.2.** **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a **Chytunodd** y canlynol :

- Bydd cyhoeddi Cynigion Drafft Ceredigion yn cael ei ohirio hyd nes mis Ionawr 2018, yn unol â chais y Cyngor. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfleu i Gyngor Sir Ceredigion. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

- Bydd cyfnod ymgynghoriad arolwg Conwy yn cael ei ymestyn hyd at 8 Medi 2017, i ganiatáu cynrychiolaeth ar ran y Cyngor Sir yn unig.

## 11. Calendr Digwyddiadau

**11.1.** **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

## 12. Unrhyw Fusnes Arall

**12.1.** Gofynnodd y Rheolwr Cyllid i Aelodau i gadarnhau bod eu iPads dal ganddynt yn eu meddiant ar gyfer y gwiriad asedau blynyddol. Cadarnhaodd pob aelod fod eu iPad ganddynt.

## 13. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

13.1. Croesawyd Cadeirydd ac Aelodau’r Panel, a thrafodwyd materion o ddiddordeb i’r ddwy ochr, a chyfnewid gwybodaeth.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Awst 2017**